| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **10 RHAGFYR 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU TREFNIADAU ATAL TWYLL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **DIM** |

## 1. CYFLWYNIAD

Fel yr adroddwyd ar lafar i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Tachwedd 2014 mae trefniadau atal twyll y Cyngor wedi'u diwygio a digwyddodd hynny yn rhannol oherwydd newidiadau cenedlaethol o ran sut y caiff twyll Budd-dal Tai ei nodi, ei ymchwilio iddo a'i erlyn.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r newidiadau.

## 2. UN GWASANAETH YMCHWILIO I DWYLL (UGYD)

Ar 1 Tachwedd 2014 cymerodd Gwasanaeth Ymchwilio Twyll Unigol yr Adran Gwaith a Phensiynau drosodd y cyfrifoldeb am ymchwilio i'r achosion o dwyll "budd-dal", gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ynys Môn. Canlyniad hyn oedd i un o ymchwilwyr yr awdurdod drosglwyddo i'r tîm UGYD a chafodd yr archwilydd arall ei benodi i rôl newydd, sef Swyddog Atal Twyll Corfforaethol (SATC) o fewn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

I bob pwrpas mae hyn yn golygu na fydd yr Awdurdod bellach yn ymchwilio i achosion o dwyll Budd-dal Tai (BT), ac mae'r swyddogaeth hon yn awr yn cael ei chyflawni gan y UGYD. Fodd bynnag, ni fydd y UGYD yn ymchwilio i droseddau twyll dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG) gan nad yw hwn yn cael ei gategoreiddio fel "budd-dal" ac felly rhagwelir mai'r Swyddog Atal Twyll fydd yn ymchwilio i droseddau CGDG. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd UGYD yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau twyll Budd-dal a CGDG yn y dyfodol.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymwybodol o'r ffaith bod nifer fawr o atgyfeiriadau twyll wedi eu cynhyrchu gan staff BT ac maent yn ymwybodol, yn dilyn trosglwyddo'r ymchwilydd budd-dal mewnol i UGYD, y bydd atgyfeiriadau efallai yn gostwng yn sylweddol, felly i wrthbwyso hyn mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu cychwyn cynllun gwobr ariannol lle y bydd Adain Budd-dal yr Awdurdod yn derbyn swm penodol am bob atgyfeiriad.

Bydd trosglwyddo ymchwiliadau twyll Budd-dal Tai o ofal Awdurdodau yn cael effaith ar staff gweinyddu Budd-dal Tai, gan y bydd angen iddynt gadarnhau i'r tîm UGYD a yw cwsmer yn derbyn Budd-dal Tai ai peidio ac os felly, bydd yn rhaid iddynt ddarparu manylion am yr hawliad a hefyd gopïau o'r ffurflen hawlio a gohebiaeth a swyddogaeth a wnaed yn y gorffennol gan y Tîm Twyll Budd-dal.

## 3. TREFNIADAU NEWYDD I ATAL TWYLL

Gyda chreu swydd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol rhagwelir y bydd deilydd y swydd yn ymchwilio i droseddau CGDG a throseddau Treth Gyngor eraill. Bwriedir y

bydd y SATC, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Tai, yn ymchwilio i achosion o dwyll tenantiaeth a all gael eu nodi gan y Gwasanaeth Tai. Bydd y SATC hefyd yn dod yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw droseddau twyll posibl all gael eu cyfeirio i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol neu eu nodi ganddynt yn ystod eu dyletswyddau archwilio arferol.

Yn ychwanegol at y mesurau adweithiol traddodiadol a grybwyllwyd uchod, bwriedir i'r SATC gael rôl fwy rhagweithiol o ran Atal Twyll Corfforaethol a creu fframwaith corfforaethol sydd â'r bwriad o greu diwylliant o ymwybyddiaeth ac atal twyll o fewn yr Awdurdod.

Bwriedir mai un o flaenoriaethau cyntaf y SATC fydd cysylltu gyda'r holl Wasanaethau yn yr awdurdod i gynhyrchu asesiad risg twyll corfforaethol. Bydd yr asesiad risg yn cael ei ddefnyddio i helpu i ffurfio polisïau fydd yn lleihau colledion i'r Cyngor ac yn y pendraw i'r pwrs cyhoeddus. Yn ychwanegol bydd y SATC yn hwyluso hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll mewn perthynas â dogfennau ffug a rhai a ffugiwyd all gael eu cynhyrchu i bwrpas adnabod pobl ac ati.

Rheolwr Archwilio
Tachwedd 2014